**<u>Y Pwyllgor Diwylliant CC 06-03(p.4)</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **26 Mawrth 2003** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 1** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Terfynol Drafft ar yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Chwaraeon Cymru** |

**Diben**

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch yr Adroddiad Terfynol drafft ar yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn darparu bod y pwyllgorau pwnc yn adolygu'n rheolaidd y swyddogaethau cyhoeddus a gyflawnir gan gyrff cyhoeddus yn eu maes. Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol a sylwadau'r Pwyllgor, bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant yn hysbysu'r Cabinet am ganfyddiadau'r Adroddiad ac yna'n cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y bwriad yw rhoi cyfle i'r Aelodau ei drafod yn y Cyfarfod Llawn cyn y caiff yr adolygiad ei gwblhau'n derfynol.

**Argymhelliad**

2. Bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau am ganfyddiadau'r Adroddiad Terfynol drafft a welir yn Atodiad A. Nodir y Cylch Gorchwyl yn Atodiad A i'r Adroddiad ei hun.

**Y Cefndir**

3. Cafodd yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Chwaraeon Cymru ei gomisiynu'n ffurfiol gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau fis Medi diwethaf, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch y Cylch Gorchwyl.

4. Cafodd yr Adolygiad ei gynnal gan GCL Management Consultants, a chanlyniad cam cyntaf yr Adolygiad oedd Adroddiad Interim a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fis Rhagfyr diwethaf. Yn dilyn hynny, cytunodd y Gweinidog dros Ddiwylliant a'r Gweinidog dros Gyllid ar brif fyrdwn canfyddiadau ac argymhellion yr Adroddiad Interim, ac yn benodol, cytunodd y ddau y dylai'r Cyngor barhau i gyflawni'i swyddogaethau presennol ac y dylai corff chwaraeon cenedlaethol yng Nghymru (*y Cyngor*) barhau i redeg y rhaglenni datblygu chwaraeon ac i ddosbarthu arian SPORTLOT. Hefyd, comisiynodd y ddau Weinidog ail gam yr adolygiad, er mwyn ymdrin ag effeithiolrwydd strategol a llywodraethu corfforaethol.

## Yr Adroddiad Terfynol

5. Amgaeir yr Adroddiad Terfynol drafft yn Atodiad A. Mae'n gwneud 47 o argymhellion newydd sy'n cael eu nodi yn y Cynllun Gweithredu sy'n dilyn y Crynodeb Gweithredol. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn deillio o ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid a phartneriaid yn ogystal â'r Cyngor Chwaraeon ei hun. Casgliad cyffredinol yr Adolygiad yw:

- Bod y Cyngor yn cael ei lywio'n dda o safbwynt agendâu sefydledig ond nad yw'n ymateb i newid yn gyflym;
- Ei fod wedi dosbarthu arian y loteri ac wedi meithrin athletwyr o'r radd flaenaf yn effeithiol;
- Bod angen iddo ganolbwyntio'n fwy ar eirioli ac ar y ffordd y mae'n rheoli'i berthynas ag amrywiaeth eang o randdeiliaid;
- Bod angen iddo edrych o'r newydd ar ei flaenoriaethau o ran cyrraedd ei amcanion;
- Bod angen iddo adolygu a chofnodi ei flaenoriaethau ar gyfer ariannu

  chwaraeon a thrafod hyn gyda'r carfanau perthnasol; a

- Bod angen iddo wella'i brosesau cynllunio'n sylweddol a pharatoi achos sydd wedi'i gefnogi'n well wrth gyflwyno cais am arian.

## Cydymffurfio

7. Cafodd yr Adolygiad ei gynnal yn unol â chanllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr Adolygiad Pum Mlynedd. Yn ogystal â chymryd rhan yn yr Adolygiad, ymgynghorwyd â'r Cyngor Chwaraeon ynghylch materion ffeithiol.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

8. Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Terfynol drafft cyn y caiff ei gyflwyno i'r Gweinidogion.

## Pwynt Cyswllt

Yr Is-adran Cynllunio Ariannol.